Iechyd Da, Gofal Da

Strategaeth Sir y Fflint i Wella
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

2008-2011

Dogfen Gryno

"Ein gweledigaeth ar gyfer Sir y Fflint yw cymuned iach a gofalgar lle mae pobl yn cyflawni'r lefelau iechyd a lles gorau posibl."

SIR Y FFLINT MEWN PARTNERIAETH
FLINTSHIRE IN PARTNERSHIP

Health Challenge Wales
Her Iechyd Cymru

Croeso a Rhagarweiniad

Croeso i *Iechyd Da, Gofal Da*, ail Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol & Lles Sir y Fflint.

Mae'r strategaeth yn enwi nifer o flaenoriaethau i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles trigolion Sir y Fflint rhwng 1af Ebrill 2008 a 31ain Mawrth 2011.

Datblygwyd *Iechyd Da, Gofal Da* gan Fwrdd Partneriaeth sydd yn cynnwys Cyngor Sir y Fflint, Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint, Ymddiriedolaethau GIG, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Darparwyr Gofal y Sector Annibynnol a Chyngor Iechyd Cymunedol Clwyd.

Fersiwn cryno o'r strategaeth yw hwn. Hefyd medrwch lawrlwytho'r ddogfen strategaeth lawn o www.flintshire.gov.uk. A medrwch ofyn am gopi o'r strategaeth mewn sawl fformat neu gael mwy o wybodaeth drwy gysylltu â:

Tîm Strategaeth Iechyd Da, Gofal Da, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NN

GoodHealthTeam@flintshire.gov.uk

01352 702536

Pwy fydd yn Elwa o *Iechyd Da, Gofal Da*?

Mae *Iechyd Da, Gofal Da* yn delio'n bennaf ag anghenion oedolion sy'n byw yn Sir y Fflint. Cyfrifoldeb Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint yw cwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r Partneriaethau'n cydweithio'n agos ac maent wedi cytuno ar rai blaenoriaethau ar gyfer y 3 blynedd nesaf. I gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Plant a Phobl Ifanc cysylltwch â:

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. CH7 6NN

Debbie.Roberts@flintshire.gov.uk

01352 702634

Sut y Datblygwyd *Iechyd Da, Gofal Da*?

Datblygwyd y strategaeth dros gfnod o 12 mis drwy:

Edrych yn fanwl ar yr hyn roedd y ffeithiau a'r ffigyrau'n ei ddweud wrthym, beth mae'r Cynulliad yn ei ddisgwyl gennym a beth roeddem wedi'i ddysgu o'r strategaeth gyntaf (Iechyd Da 2005-2008)

Gwrando ar ddarparwyr gwasanaeth a'r cyhoedd am yr hyn a ddylai fod yn y strategaeth ac yna ymgynghori'n helaeth ar y cynigion yn y drafft cyntaf*

Trafodaethau manwl am yr holl wybodaeth a safbwyntiau a gasglwyd i gytuno ar fersiwn terfynol, blaenoriaethau, canlyniadau (beth fyddai'n wahanol), mesurau perfformiad (sut y mesurwn "lwyddiant") a'r adnoddau angenrheidiol

**Mae adroddiad llawn ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ar gael gan y Tîm Strategaeth Iechyd Da, Gofal Da.*

Pam y cytunwyd ar y blaenoriaethau?

Yn dilyn ymgynghoriad ar y drafft cyntaf, cytunwyd ar y blaenoriaethau oherwydd eu bod:

- ✔ Yn ymateb i anghenion lleol
- ✔ Yn ymateb i'r hyn mae'r cyhoedd a darparwyr gwasanaeth wedi'i ddweud wrthym
- ✔ Angen i sefydliadau gydweithio i gyflawni gwelliannau
- ✔ Cwrdd â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru

Beth am Flaenoriaethau Eraill?

Ni all *Iechyd Da, Gofal Da* gwrdd ag anghenion pawb yn y Sir a golyga hyn y bu raid gwneud penderfyniadau anodd. Rhoddir ffocws penodol i'r blaenoriaethau yn y strategaeth hon gan y Bwrdd Partneriaeth rhwng 2008-2011.

Nid yw hyn yn golygu na fydd blaenoriaethau eraill yn Sir y Fflint yn dal i gael eu hystyried gan y cyrff sydd yn gyfrifol am wella'r modd y cyflawnir gwasanaethau.

Blaenoriaethau ar gyfer 2008-2011
Yr Hyn Rydym am ei Gyflawni

Mae pob un o'r blychau isod yn disgrifio un maes blaenoriaeth ac enghreifftiau o'r hyn rydym am ei gyflawni erbyn 2011.

Ar gyfer pob un o'r blaenoriaethau, cytunwyd ar "arweinydd blaenoriaeth". Eu rôl fydd gweithio ar ran y Bwrdd Partneriaeth i:

- ✔ Gwblhau cynlluniau gweithredu ar gyfer pob blaenoriaeth i osod allan y camau neu'r "tasgau" sydd i'w cyflawni

- ✔ Sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a'i adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth

Diogelu a gwella Iechyd

- Bydd mwy o bobl yn dilyn ffordd o fyw sy'n hybu iechyd ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain a'u tuluoedd.
- Bydd gwelliant yn lles ac iechyd meddwl pobl.
- Cynhelir neu wellir cyfraddau imiwneiddiad ar gyfer y ffliw a niwmococol.

Cynhwysiant Cymdeithasol – Pobl ag anabledd

- Gwella ymwybyddiaeth gyda chyflogwyr ac asiantau yn Sir y Fflint i wrthweithio anwybodaeth, gwahaniaethu a disgwyliadau isel pobl ag anabledd yn y gweithle

Gofalwyr

- Bod gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn cael eu cydnabod a'u hadnabod gan bobl broffesiynol ac yn derbyn gwybodaeth.
- Bod gan ofalwyr fynediad i ystod o gefnogaeth hyblyg, dychmyglon ac ymatebol, gan gynnwys mewn argyfwng.
- Bod polisïau tai, addasu ac eiddo'n ymateb i anghenion gofalwyr.
- Bod polisïau a gwasanaethau'n cefnogi gofalwyr fel unigolion â'u hanghenion eu hunain, gan gefnogi'n benodol fynediad i gyflogaeth a / neu dysgu drwy gydol oes.

Pobl hŷn gyda phroblem iechyd meddwl

- Bydd pobl hŷn gyda phroblem iechyd meddwl yn aros yn eu cartrefi eu hunain gyhyd ag sy'n bosibl.
- Bydd pobl hŷn gyda phroblem iechyd meddwl yn dal i fod yn weithredol yn eu cymuned am yn hirach.
- Bydd gofalwyr pobl hŷn gyda phroblem iechyd meddwl yn derbyn cefnogaeth.
- Bydd gan bobl hŷn gyda phroblem iechyd meddwl fynediad i ystod o wasanaethau arbenigol.

Cyflyrau Hirfaith

- Bydd pobl gyda chyflwr iechyd hirfaith yn cael eu canfod yn gynt
- Bydd pobl gyda nifer o gyflyrau hirfaith yn derbyn gofal teg a safonol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.
- Bydd pobl gyda chyflwr iechyd hirfaith yn medru hunanreoli eu cyflwr yn fwy effeithiol
- Bydd pobl gyda chyflwr iechyd hirfaith yn cael canlyniadau gwell.

Mynediad i wasanaethau

- Darperir gwybodaeth gyraeddadwy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gan bartneriaid strategol yn well.
- Ystyrir anghenion mynediad wrth ddatblygu a chyflawni'r holl flaenoriaethau yn y strategaeth hon.

Blaenoriaethau a rennir gyda'r Partneriaeth Plant & Pobl Ifanc:

Iechyd meddwl plant a phobl ifanc

- Rhwystro problemau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc
- Plant a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl yi gael eu hadnabod a'u cefnogi'n fuan
- Gwell mynediad i wasanaethau a llai o amser aros.

Trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau i oedolion

- Bydd gan bobl ifanc gymwys fynediad i wasanaeth i'w helpu i wneud dewisiadau ynghylch eu dyfodol
- Bydd pobl ifanc rhwng 16 – 18 gydag anghenion lefel isel yn edru defnyddio cefnogaeth dymor byr fel gwasanaeth atal.
- Bydd asiantaethau'n sicrhau bod gwasanaethau trosiannol yn cwrdd ag anghenion pobl ifanc ag anabledd.

Mesur Llwyddiant

Mae gan bob un o'r gweithredoedd a enwir yn y strategaeth "faslinell" a "thargedau". Mae hyn yn golygu ein bod ni'n gwybod o ble y cychwynsom ni ac y medrwn weld os ydym yn gwneud cynnydd tuag at yr amcanion a osodwyd gennym. Bydd y Bwrdd Partneriaeth yn derbyn diweddariadau rheolaidd am y cynnydd a'r gwaith i sicrhau bod unrhyw broblem a geir wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn cael eu trin.

Gwneud y defnydd gorau o adnoddau

Bydd cael set o flaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn helpu'rBwrdd Partneriaeth i ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'n bwysig cofio nad mater o arian ydi hyn bob amser – cefnogir llawer o'r gwelliannau drwy barhau i ddatblygu gweithlu crefftus a llawn cymhelliant..

Felly, yn ogystal â'r ddogfen strategaeth, gwnaed a gwneir llawer o waith o ran cynllunio ariannol a datblygu'r gweithlu.

Lleihau anghydraddoldeb.

O fewn pob blaenoriaeth yn *Iechyd Da, Gofal Da,* mae'r nod o leihau achosion ac effeithiau gwahaniaethau annheg neu anghyfiawn mewn iechyd, gofal cymdeithasol a lles rhwng pobl ar sail oed, rhyw, lefel gallu, ethnigrwydd neu dueddiad rhywiol yn unig.

Eisiau Derbyn Newyddion neu Gyfrannu?

Os ydych:

✔ Eisiau derbyn copi o newyddlen reolaidd i glywed am gynnydd

✔ Â diddordeb arbennig mewn gwybod beth sy'n digwydd yn y Sir neu mewn cymryd rhan i wella iechyd a lles, mae croeso i chi ymuno â'r Rhwydwaith Lles. Mae ymuno'n hawdd a di-dâl a medrwch rannu a derbyn gwybodaeth am ystod eang o faterion gwella iechyd

Cysylltwch â'r Tîm Strategaeth Iechyd Da, Gofal Da:

01352 702536 GoodHealthTeam@flintshire.gov.uk